# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Iau, 13 Ionawr 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies, E. Dole a/ac D. Jones

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr
S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 11.00 - 11.20 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. COFNODION

### 3.1. 16 RHAGFYR, 2021 (10.00 Y.B.)

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2021 (10:00am) gan eu bod yn gofnod cywir.**

### 3.2. 16 RHAGFYR, 2021 (10.10 Y.B.)

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2021 (10:10am) gan eu bod yn gofnod cywir.**

## 4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 5. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD D.P.J.N. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL.

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.**

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant am ddim i D.P.J.N i ysgol ddynodedig agosaf yr Awdurdod Addysg Lleol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol, ac nad oedd felly'n bodloni’r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

**PENDERFYNWYD bod yr apêl a gyflwynwyd gan D.P.J.N. am gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei gohirio er mwyn galluogi swyddogion i ailasesu'r llwybr diogel i'r ysgol yng ngoleuni'r materion a godwyd yn y cyfarfod ac i gysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch llwybrau diogel i'r ysgol yng nghefn gwlad lle nad oes goleuadau stryd ac ynghylch y terfyn cerdded o 3 milltir.**

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**